

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) -

Ceisiadau ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham

Gweler ymateb ein Haelodau isod i'r cais am gyflwyniadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau erbyn 3 Ionawr 2020 fel rhan o Gam 1 o broses y Cynulliad ar gyfer ystyried Biliau Cyhoeddus.

Cytunwyd ar yr ymateb mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 18 Rhagfyr 2019. Cymeradwywyd safbwyntiau mewn perthynas â 'Rhan 6' - Perfformiad a Llywodraethu - gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr. Yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed isod hoffem gydnabod y goblygiadau cost ar gyfer llywodraeth leol sy'n gysylltiedig â llawer o'r darpariaethau wedi'u manylu yn y Bil.

RHAN 1 - ETHOLIADOL

1.1 Roedd gan aelodau safbwyntiau cymysg ar ymestyn yr etholfraint i unigolion 16-17 oed. Nodwyd y dylai bod yna gydraddoldeb etholfraint ar draws y DU.

1.2 Rydym yn cefnogi'r camau gweithredu i wneud y mwyaf o gyfraddau cofrestru etholiadol, ac roedd ein hymateb i'r ymgynghoriad 'Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol (2017)' yn nodi ein bod yn bryderus ynglŷn â'r angen i wella addysg ar wleidyddiaeth i bobl ifanc a'r hyn y mae pleidleisio yn ei olygu yn ymarferol: rydym felly'n croesawu'r ddyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r trefniadau ar gyfer cofrestru pleidleiswyr ar gyfer pobl ifanc perthnasol. Hefyd rydym yn cefnogi'r datblygiad o gofrestru awtomatig, ond yn parhau i fod yn ansicr ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd datblygu cofrestr electronig sengl i Gymru.

1.3 Rydym yn cefnogi ehangu'r etholfraint i'r holl breswylwyr cyfreithiol yng Nghymru, beth bynnag eu dinasyddiaeth neu genedligrwydd.

1.4 Rydym yn cefnogi'r newid mewn cylchredau etholiadol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned o 4 i 5 mlynedd.

1.5 Mae'n bwysig fod rhybudd digonol yn cael ei roi i Swyddogion Cofrestru Etholiadol (SCE) er mwyn casglu'r gofrestr etholiadol newydd.

1.6 Mae safbwyntiau cymysg i'r cymhwysedd o sefyll fel ymgeisydd i'w ehangu i ddinasyddion o bob gwlad.

1.7 Mae gan ein haelodau safbwyntiau cymysg am y newid arfaethedig i ganiatáu gweithwyr i sefyll yn yr etholiad yn awdurdodau eu hunain. Er ein bod yn cefnogi dulliau i annog trawstoriad ehangach o'r gymuned i ystyried sefyll mewn etholiad, rydym yn ystyried y gallai sefyllfa o'r fath gael effaith anghyfrannol ar gysylltiadau llywodraethu a chyflogaeth dda, gyda gwrthdaro buddiannau posib a thanseilio perthnasau. Mae goblygiadau ymarferol hefyd yn gysylltiedig gyda'r gweithiwr yn ymddiswyddo o'r awdurdod heb angen rhoi unrhyw gyfnod rhybudd.

1.8 Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i ymestyn y darpariaethau anghymwysu yng Nghymru i gynnwys unrhyw un yn ddarostyngedig i hysbysiadau o anghenion ar gyfer, neu hysbysiad o dan, y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

1.9 Er bod yna ddim darpariaeth ar hyn o bryd yn y Bil yn ymwneud ag ymestyn yr etholfraint i garcharorion a phobl ifanc yn y ddalfa, nodwn fod y Gweinidog wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu bod mewn sefyllfa i rannu darpariaethau ar bleidleisio i garcharorion cyn Cam 2. Mae'r rhan fwyaf o'n haelodau yn anghytuno â'r estyniad hwn, ac mae'r rheiny o blaid o'r farn y dylai carcharorion fod wedi cofrestru yn eu cyfeiriad cartref a dim ond fel rhan o'r cyfnod adsefydlu a dim ond i droseddau llai difrifol a dedfrydau byr (llai na 12 mis).

O ran ystyriaeth ymarferol, mae gan Carchar Berwyn EM le i 2100 o garcharorion pan fydd yn llawn, ac yn dibynnu ar gynigion penodol byddai goblygiadau i wasanaethau etholiadol pe bai hyn yn cael ei gyflwyno hwyrach ymlaen yn y broses, a byddem yn dymuno cael ein hymgyngori ar hyn.

1.10 Fel y dynodwyd yn ein hymateb blaenorol i'r Diwygio Etholiadol yn ymgynghoriad Llywodraeth Leol (2017), nid ydym yn cefnogi unrhyw newid i'r System Gyntaf i'r Felin ar gyfer y system etholiadol ac o'r farn fod cael mwy nac un system etholiadol yn ei le yn gymhleth ac o bosib yn cael effaith ar gyfranogiad a fyddai'n tanseilio'r amcanion polisi yn y Bil hwn.

1.11 Yn flaenorol rydym wedi mynegi bod yna gefnogaeth gyffredinol ymysg ein haelodau ar gyfer talu am ffioedd personol i Swyddogion Canlyniadau o ystyried bod atebolrwydd personol yn perthyn i'r rôl.

RHAN 2 - PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

2.1 Rydym yn cefnogi cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol.

RHAN 3 - HYRWYDDO MYNEDIAD I LYWODRAETH LEOL

3.1 Er ein bod yn cefnogi naws uchelgeisiol y Bil o ran cyfranogiad y cyhoedd a hyrwyddo mynediad i lywodraeth leol, rydym o'r farn bod llawer o hynny yn ei le yn barod - mae 'Ymrwymiad' eisoes yn rhan o'r egwyddor datblygu gynaliadwy. Yn lleol mae gennym broses ar gyfer delio gyda deisebau yn ein cyfansoddiad ac fel awdurdod mae gennym Strategaeth Cynnwys. Bydd y ddyletswydd yn golygu baich rheoleiddiol pellach ar yr awdurdod a hynny heb y sicrwydd y byddai cynnydd yng nghyfranogiad y cyhoedd - rydym wedi nodi mewn ymatebion ymgynghori blaenorol na ellir gorfodi cyfranogiad gan y cyhoedd ar y gymuned.

3.2 Nid ydym yn cefnogi'r cynnig ein bod ni'n gyfrifol am ryddhau'r ddyletswydd hon, ynghyd â'r goblygiadau adnoddau i ddilyn na ellir eu hosgoi, ar ran yr 'awdurdodau cysylltiedig' hunanlywodraethol eraill. Dylai barhau i fod yn gyfrifoldeb yr awdurdodau hynny.

3.3 Rydym yn croesawu'r ddyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau electronig a phost cynghorwyr lle bydd yn bosib i bobl yn eu hardal etholiadol gysylltu â nhw, ac yn yr

hinsawdd wleidyddol bresennol rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i ddefnyddio cyfeiriadau'r cyngor.

3.4 Yn Wrecsam, rydym yn gefnogol o'r syniad ein bod yn gwneud y ffordd y byddwn yn dod i benderfyniadau yn eglur a'n bod yn atebol i hynny. Rydym eisoes yn darlledu'r holl gyfarfodydd ar wahân i bwyllgorau Craffu, Gwasanaethau Democrataidd a Safonau. Fodd bynnag, ni ddylai cyflwyno'r ddyletswydd lesteirio gallu'r cyngor i ddarfod ei fusnes ac mae angen i fesurau diogelu priodol barhau ar gyfer cyfarfodydd a phenderfyniadau i gael eu gwneud hyd yn oed ar ôl stopio'r darlledu neu pan na fydd modd darlledu oherwydd achosion technegol ac rydym yn croesawu cydnabyddiaeth o hynny yn y Bil hwn.

3.5 Rydym yn croesawu'r egwyddor o fynychu o bell, ond wedi mynegi ein pryderon ynglŷn â hynny'n barod wrth ystyried ymarferoldeb a chamddefnyddio posib. Rydym felly yn croesawu'r cynnydd mewn hyblygrwydd a fyddai'n ein galluogi ni i gytuno i reolau sefydlog ein hunain yn yr ardal hon. Mae angen mwy o eglurhad o ran effaith y problemau technegol sydd yn atal mynediad o bell mewn cyfarfodydd.

RHAN 4 - PRIF WEITHREDWYR, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU'R AWDURDODAU LLEOL

4.1 Mewn perthynas i Arweinwyr Grŵp yn cymryd camau rhesymol i sicrhau safonau uchel o ymddygiad - mae ein haelodau wedi codi'r achos o gynghorwyr didueddrwydd

4.2 Rydym wedi nodi yn y gorffennol ein bod ni fwy neu lai yn gefnogol o rôl blismona ar gyfer y Pwyllgor Safonau, fodd bynnag rydym wedi lleisio ein pryderon na ddylai Llywodraeth Cymru fod ynghlwm â'r pryderon gweithredol ac ni ddylent roi gorchmynion ynglŷn â threfniadau. Mae gan yr holl aelodau etholedig ddyletswydd i hyrwyddo safonau da ac mae'r rhain i'w cael yng Nghod Ymddygiad Aelodau. Dylai fod yn gyson ar draws awdurdodau cyhoeddus ac o fewn Cynulliad Cymru.

RHAN 5 - PRIF GYNGHORAU YN CYDWEITHIO

5.1 Yn ein hymateb i ymgynghoriad 'Diwygio Llywodraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad (2017)' dyma ni'n mynegi ein pryder ar orfodi i gael gwared ar ddewis lleol a'r cyflwyniad gorfodol o fodelau gweithio'n rhanbarthol. Tynnwyd sylw at y tyndra rhwng economeg posib y gwasanaethau rhanbarthol a'r atebolrwydd ac ymrwymiad posib gan wasanaethau lleol, yn ogystal â'r costau o sefydlu a'r risgiau fod ôl-traed gwaith rhanbarthol yn rhy fawr. Credwn fod yn rhaid i ffrydiau cyllido'r llywodraeth barhau i gael eu cyfeirio at awdurdodau lleol.

5.2 Byddem yn croesawu cyd-gynhyrchu'r Rheoliadau yn ymwneud â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, o ran swyddogaethau penodol, ffiniau a threfniadau llywodraethu, a chefnogi darpariaethau sydd yn cadw llywodraeth leol a gofynion llywodraeth leol yn ganolog i'r gwaith rhanbarthol. Byddem yn rhybuddio yn erbyn mynnu fod aelodau o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cynnwys Arweinwyr Cynghorau etholedig gan ystyried bod y portffolio dan sylw o bosib yn nwylo aelod gweithredol arall o'r Cyngor a fyddai o bosib yn fwy o gaffaeliad i gymryd rhan mewn Cyd-bwyllgor

Corfforedig. Byddai mynnu bod aelodaeth yn cynnwys aelod o'r gweithredwyr yn darparu mwy o hyblygrwydd yn arbennig os bydd mwy nag un Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei sefydlu mewn ardal. Dylai rheoliadau ddarparu aelod gweithredol wrth gefn i allu mynd i gyfarfodydd ac i aelodau gweithredol eraill gael eu penodi i is-bwyllgorau o Gyd-bwyllgor Corfforedig.

5.3 Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad Cryfhau Llywodraeth Leol (2018), dyma ni hefyd yn mynegi y byddem yn awyddus i archwilio'r cyfle i ymuno mewn cydbwyllgorau gyda chyrrff eraill heb fod yn gyhoeddus, sydd ar hyn o bryd ond yn gallu cymryd rhan mewn cymhwysedd ymgynghorol.

RHAN 6 - PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU

6.1 Dydi'r Awdurdod heb gefnogi'r Aseidiadau Panel yn y gorffennol ond yn rhan o drafodaethau parhaus i drafod sut y gellir eu cydlynu a'u darparu mor effeithiol â phosib.

6.2 Rydym yn croesawu rôl newydd Llywodraethu a Chraffu ond yn ofni dyblygu gyda'r swyddogaeth craffu.

6.3 Nid ydym yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i aelodaeth - mae hyn yn tansilio democratiaeth leol ac oherwydd hynny dylai cydbwysedd aelodaeth gael ei adael i ddisgresiwn lleol. Mae pryder ynglŷn â'r gallu i recriwtio aelodau lleyg ac mae goblygiadau cost ar gyfer cynnydd mewn tâl cydnabyddiaeth i aelodau lleyg, yn ogystal ag Aseidiadau Panel.

RHAN 7 - UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

7.1 Mae'r awdurdod hwn yn cefnogi'r dewis o uno'n wirfoddol, ac yn credu dylai hynny ddeillio o ddymuniadau'r preswylwyr yn hytrach na'r cyngor neu asiantaethau allanol.

RHAN 8 - CYLLID LLYWODRAETH LEOL

8.1 Mae'r awdurdod fwy neu lai yn cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn y bil sydd yn berthnasol i gyflenwad o wybodaeth a phŵer i archwilio. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Ailbrisio NDR sydd yn cymryd lle yn Ebrill 2021. Mae'r cynigion hyn yn gysylltiedig ag osgoi talu treth a ymgynghorwyd ar hynny yn 2018. Mae deddfwriaeth bellach ei angen i gefnogi'r weithred yn erbyn osgoi talu treth a fyddai'n cael ei ryddhau yn 2020. Mae'r cynigion cychwynnol yn bwydo i'r strategaeth ar gyfer osgoi talu treth fodd bynnag heb weld y manylion gweithredol mae'n anodd gwneud sylwadau pellach ar sut y byddai'r cynigion hyn yn gweithio yn ymarferol.